OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 2032 (Cy. 236)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 23, Llanddulas, Conwy) (Gwaharddiadau Traffig a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2012

*Gwnaed 1 Awst 2012*

*Yn dod i rym 9 Awst 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer — Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt:

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4), a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a phob pŵer galluogi arall (2), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Awst 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 23, Llanddulas, Conwy) (Gwaharddiadau Traffig a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 9 Awst 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri iddo gael ei reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Drwy hyn, mae darpariaethau Rheoliadau Ffordd Arbennig (yr A55) (Llanddulas i Fae Colwyn) 1984**(3)** wedi eu hatal i’r graddau y maent yn ymwneud â’r darnau perthnasol o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 1 Awst 2012

*R Morgan*

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)**Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1984/1719.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

### Gwahardd Cerbydau a Beicwyr

i. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23, Llanddulas;

ii. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23, Llanddulas;

iii. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23, Llanddulas;

iv. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23, Llanddulas;

### ATODLEN 2

### Hyd a lled y terfyn cyflymder 40 mya

i. Y darn hwnnw o'r gefnffordd tua'r dwyrain o bwynt 2,000 o fetrau i'r gorllewin o'r ynys hollti tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23, i bwynt 1,000 o fetrau i'r dwyrain o ynys hollti.

ii. Y darn hwnnw o'r gefnffordd tua'r gorllewin gefnffordd o bwynt 2,000 o fetrau i'r dwyrain o'r ynys hollti tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23, i bwynt 1,000 o fetrau i'r gorllewin o'r ynys hollti.

### ATODLEN 3

### Gwahardd cerddwyr

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23, Llanddulas.